**CYNGOR CYMUNED**
**LLANFAIR YN NEUBWLL**
**COMMUNITY COUNCIL**

---

## Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - Nos Fawrth, 15fed o Fedi 2015

**Presennol:** Cyng. Einir Thomas (Cadeirydd)
Cyng. Gordon Owen
Cyng. Gwilym O. Jones
Cyng. Gwynfor Lloyd Jones

**Ymddiheuriadau:** Cyng. Beryl Salisbury
Cyng. Dyfed Williams

**2. Datganiad o ddiddordeb –** dim

**3. Cofnodion cyfarfod - 21ain o Orffennaf 2015-** Derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir - (Cynnig Cyng. Gwilym O. Jones, eilio Cyng. Gordon Owen.)

**4. Materion yn codi o'r cofnodion**

1. Llwybr 12 a 27 - Cafwyd ymateb gan y GMS Ground Services yn dweud fod Llwybr Troed 12 yn cael strimio ar hyd ochr y ffordd i fyny at ffens y Weinyddiaeth Amddiffyn. Cadarnhawyd fod llwybr 27 wedi ei dorri.

2. Ffens cae chwarae - Dywedodd Cyng. Gwilym O. Jones fod yna niwed pellach i'r ffens a bod plant yn gallu cael mynediad i iard yr adeiladwyr tŷ ôl i'r cae. Cytunwyd y byddai'r clerc yn cyfarfod â Mr Craig Redmond i drafod y gwaith atgyweirio.

3. Giât yr Orsaf Bwmpio - Nodwyd fod clo newydd wedi ei roi ar y giât.

4. Lloches bws (Cyffordd A55) - 'Roedd Valley Forge wedi cytuno i drin y lloches a byddai'n gwneud trefniadau i gyfarfod â'r clerc a chasglu'r panel coll.

5. Unrhyw fater arall yn codi o'r cofnodion - dim

**5. Deddf Gynllunio Gwlad a Thref**

1. 32EL1514/E - Gogledd o Arfryn, Llanfair yn Neubwll - Cais i ail godi gwifren trydan(11kV) uwchben y ddaear - nodwyd.

2. 32C183B - Coedlys, Caergeiliog - Cais llawn i godi annedd newydd ynghyd a chreu mynedfa newydd i gerbydau - dim gwrthwynebiad i hwn.

**6. Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn -** fe nodwyd y canlynol
1. Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned
2. Gwasanaeth Sul y Cadeirydd
3. CDLl ar y Cyd Gwynedd & Môn - Newyddlen 5.

 Arwyddwyd:…………………….(Cadeirydd)

**7. Materion Ariannol**

**Yn y banc ar 15.9.2015 Cyfrif Cyfredol £9370.97, Cyfrif Cadw £1417.17**

**Taliadau i'w gwneud**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog y clerc (Gorffennaf ac Awst) | £352.70 | HMRC (TWE) | £88.18 |
| GMS (17179 and 17065) | £542.40 | UHY Hacker and Young | £246.00 |

**Cytunwyd i dalu'r rhain (Cynnig Cyng. Gwynfor Lloyd Jones, eilio Cyng. Gordon Owen)**

**Datganiad Blynyddol 2014/2015 –** Cafwyd cadarnhad gan yr Archwilydd Allanol fod y cyfrifon wedi eu cwblhau yn dderbyniol.

**8. Trosglwyddo arian -** Roedd HSBC Banc wedi cadarnhau bod angen o leiaf dau lofnodwr i drosglwyddo arian i mewn i'r cyfrif cadw, fe lofnodwyd llythyr cymeradwyo a baratowyd gan y clerc gan Cyng. Einir Thomas a Cyng. Gordon Owen.

**9. Gohebiaeth Eraill – fe nodwyd y canlynol**

1. Cylchlythyr RHUN AP IORWERTH
2. Llythyr Unllais Môn at Grid
3. Adroddiad Betsi Cadwaladr
4. Newidiadau arfaethedig i Bennod Polisi Cynllunio Cymru) - dogfen ymgynghori ar y polisi a'r canllawiau diwygiedig yn ymwneud â datblygiad manwerthu a chanolfannau manwerthu.
5. RHANNU PWRPAS: RHANNU DYFODOL
6. Gronfa ar gyfer Gwella Amgylchedd a'r Gymuned
7. Nodiadau Pwnc Cyfreithiol gan NALC - roedd y clerc i adrodd ar hyn yn y cyfarfod nesaf
8. Llythyr gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus - llythyr yn cyfeirio at ymgynghoriad ar y cynnig i gael gwared ar y terfyn ar uchafswm nifer y cynghorwyr fesul awdurdod i gydnabod y ffaith y bydd y cynghorau newydd yn gyfrifol am boblogaethau ac ardaloedd daearyddol mwy. (Nodwyd fod Gwynedd gyda'r uchafswm - 75 o Aelodau Etholedig ar hyn o bryd). Yn lle hynny, mae'r Cyfarwyddiadau Drafft yn pennu y dylai nifer y cynghorwyr ddim bod yn llai na'r nifer a geir drwy gymhareb cynghorwyr i etholwyr o un cynghorydd i bob 4,000 o etholwyr. (Byddai hyn fwy neu lai yn unol â'r sefyllfa bresennol ar Ynys Môn)

**10 . Unrhyw fater arall**

Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â CSYM ynglŷn â chyflwr y postiai gôl ar y tir ger Stad Tre Ifan

 Arwyddwyd:…………………….(Cadeirydd)

**11. Cyfarfod nesaf 20fed o Hydref 2015.**



Arwyddwyd:…………………….(Cadeirydd)